



CWESTIYNAU CYFFREDIN Y PANEL TROSOLWG ANNIBYNNOL AR WASANAETHAU MAMOLAETH (IMSOP) ADRODDIAD CHWARTEROL YR HYDREF, 2019

EIN RÔL A'N CYNNYDD HYD YN HYN

Beth yw rôl y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth?

Yn dilyn adolygiad ar y cyd o wasanaethau mamolaeth yn hen Fwrdd Iechyd Cwm Taf, a gynhaliwyd gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwragedd, cafodd y Panel ei sefydlu gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig trosolwg angenrheidiol er mwyn galluogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i roi argymhellion yr adolygiad ar waith. Nodir ein cyfrifoldebau allweddol yn ein cylch gorchwyl. Cliciwch [yma](#) ar ragor o wybodaeth.

Pa waith mae'r Panel yn ei wneud yng Nghwm Taf Morgannwg i sicrhau bod gwasanaethau mamolaeth yn ddiogel?

Daeth tîm adolygu'r Colegau Brenhinol o hyd i un ar ddeg o bryderon uniongyrchol yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch (a elwir yn 'bethau dylid eu gwneud yn saff'). Cafodd y rhain eu huwchgysfeirio i Lywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar 17 Ionawr 2019. Fel mater o frys, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyfarwyddyd i'r Bwrdd Iechyd gyflwyno gwelliannau er mwyn sicrhau diogelwch gwasanaethau mamolaeth.

Mae'r camau ychwanegol a ganlyn wedi eu cymryd er mwyn sicrhau gellir darparu gwasanaethau'n ddiogel:

1. Mae'r Panel wedi asesu'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'r un ar ddeg o 'bethau dylid eu gwneud yn saff', a'r graddau yr ymdriniwyd â nhw ac y cawson nhw eu hymwreiddio mewn arferion gweithredol. Byddwn yn parhau i fonitro'r newidiadau hynny yn ystod y misoedd nesaf er mwyn sicrhau eu bod yn rhan o arferion gweithio beunyddiol.
2. Er gwaethaf y camau cadarnhaol a gymerwyd ym mhob un o'r meysydd, mae tri o 'bethau dylid eu gwneud yn saff' yn dal i fod ar y gweill. Mae'r rhain yn ymwneud â diwylliant, ymddygiad a staffio. Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro'r rhain yn ofalus er mwyn sicrhau na fyddan nhw'n arwain at unrhyw risgiau diogelwch uniongyrchol.
3. Yn ychwanegol at hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd monitro wythnosol lle mae'n craffu ar berfformiad y Bwrdd Iechyd ym mhob un o'r meysydd allweddol. Caiff y wybodaeth hon ei rhannu gyda'r Panel.



Pa gynnydd sydd wedi ei wneud?

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Cynllun Gweithredu Gwasanaethau Mamolaeth er mwyn sicrhau bod pob un o argymhellion yr adolygiad yn cael eu bodloni. Mae cynnydd cynnar wedi ei wneud o ran cyflawni yn erbyn prif flaenoriaethau clinigol yr argymhellion. Ymddengys fod creu ambell swydd arwain newydd ac allweddol yn y gwasanaethau mamolaeth, ac o fewn y sefydliad yn gyffredinol, wedi cael effaith sylweddol.

Mae rhai bylchau o ran staff a'r sgiliau angenrheidiol yn y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth wedi effeithio ar gyflymder y cynnydd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i oresgyn hyn, ac mae penodi'r Cyfarwyddwr Gwella Mamolaeth wedi bod yn ddatblygiad sylweddol. Yn awr, mae gan y Rhaglen dri Bwrdd Prosiect sy'n gyfrifol am wahanol rannau o'r Cynllun.

YR ADOLYGIADAU CLINIGOL

Beth yw strategaeth yr adolygiadau clinigol?

Mae'r ddogfen hon yn pennu cynnydd yr adolygiadau clinigol a'r ymarfer edrych yn ôl, yn ogystal â'r dull o'u cynnal. Mae ar gael ar ein gwe-dudalen [yma](#).

Sawl achos sy'n cael ei adolygu? Pam mae nifer yr achosion gaiff eu hystyried wedi cynyddu?

Rydym eisiau sicrhau ein bod yn elwa i'r eithaf ar gyfleoedd i ddysgu – mae hyn yn cynnwys dysgu ble mae'r gofal wedi bod yn dda yn ogystal â dysgu am yr achosion hynny pan na chyrhaeddodd y gofal y safon ddisgwyliedig. Felly, rydym wedi rhoi dull 'dalen wag' ar waith wrth benderfynu pa achosion dylid edrych arny'n nhw.

Mae'r meini prawf gafodd eu dewis gan y Panel yn ehangach o gryn dipyn na'r rhai a ddefnyddiwyd gan y Bwrdd Iechyd i bennu'r 43 achos gafodd eu hystyried gan dîm adolygu Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr.

Bydd yr adolygiadau'n canolbwyntio ar brofiad o'r gofal yn ogystal â materion diogelwch clinigol.

Oherwydd y cynnydd sylweddol hwn yng nghwmpas a maint y broses adolygiadau clinigol annibynnol, ac ar sail y gwaith sydd wedi ei wneud gan glinigwyr y Panel hyd yn hyn, rhagwelir bydd oddeutu 150 o achosion yn cael eu hadolygu fel rhan o gam cyntaf yr adolygiadau (ymarfer edrych yn ôl 2016-2018).



Pam mai brasamcan yw ffigurau'r adolygiadau clinigol?

Mae yna ddau brif reswm am hyn. Yn gyntaf, mae ansawdd y data'n dal i gael ei sicrhau gan y Bwrdd Iechyd, ac mae angen i rywfaint ohono gael ei wirio gyda data'n ymwneud â systemau cofnodi cenedlaethol. Yn ail, mae proses yr adolygiadau clinigol wedi ei chynllunio i fod yn broses esblygol er mwyn sicrhau bod modd dod o hyd i bob achos sydd angen ei adolygu ac nad oes dim yn syrthio trwy'r rhwyd. Mae hyn yn golygu bydd modd ymgorffori unrhyw achosion ychwanegol sydd angen adolygiad clinigol wrth i'r dysgu fynd yn ei flaen.

Ydy hyn yn golygu bydd mwy o achosion o niwed difrifol yn dod i'r amlwg?

Nid yw pob un o'r achosion ychwanegol yn ddigwyddiadau difrifol, a rhagwelir y bydd arferion da yn dod i'r amlwg yn ogystal â chyfleoedd i gyflwyno gwelliannau. Bydd rhaglen yr adolygiadau'n canolbwyntio ar ddysgu.

A fydd hunangyfeiriadau'n destun adolygiad clinigol?

Mae ymrwymiad wedi ei wneud y byddwn yn edrych ar bob achos lle mae unigolyn wedi mynegi pryderon. Cytunwyd ar broses gyda'r Bwrdd Iechyd i bennu sut caiff hunangyfeiriadau eu hystyried yn yr achosion hynny pan nad ydyn nhw'n dod o fewn y meini prawf y cytunodd y Panel arny'n nhw mewn perthynas â'r adolygiad clinigol. Mae'n bwysig nodi y bydd rhai achosion angen adolygiad, ond nid adolygiad clinigol o angenrheidrwydd; fodd bynnag, bydd y Panel yn cytuno ar ffordd o fwrw ymlaen â phob achos a byddwn yn monitro eu dulliau rheoli wrth symud ymlaen.

Sut byddaf yn gwybod a fydd fy achos i'n destun adolygiad clinigol?

Byddwn yn cysylltu â chi i roi gwybod bod eich achos wedi ei gynnwys yn ymarfer edrych yn ôl 2016-18. Ein gobaith yw cychwyn ar hyn o fis Tachwedd ymlaen. Wedyn, bydd modd i chi benderfynu ydych chi'n dymuno parhau i fod yn rhan o'r broses wrth symud ymlaen; ac os felly, sut. Byddwn yn esbonio'r broses a'r hyn mae'n ei olygu i chi, yn ogystal â sut bydd unrhyw adborth yn cael ei roi.

Beth yw amserlenni'r adolygiadau?

Ein bwriad yw rhoi cam cyntaf y rhaglen adolygiadau clinigol ar waith erbyn diwedd mis Tachwedd 2019.

Proses esblygol fydd hon, ac o'r herwydd byddai'n amhriodol i ni gynnig amserlen. Ymddiheurwn am fethu â rhoi mwy o wybodaeth i chi ar hyn o bryd. Mae'n hollbwysig i'r gwaith hwn gael ei gwblhau'n drylwyr, ac felly mae'n ddibynnol ar argaeledd adolygwyr annibynnol allanol. Gallwn eich sicrhau ein bod yn bwrw ymlaen â'r gwaith mor gyflym â phosibl.



A fyddaf yn cael iawndal?

Bydd pob achos yn cael ei adolygu'n unol â threfniadau Gweithio i Wella, yn cynnwys gwneud iawn pan fo hynny'n briodol.

Rôl y Panel yw sicrhau bod modd ymchwilio'n briodol i unrhyw faterion difrifol sydd wedi digwydd, a bod gwelliannau priodol yn cael eu cyflwyno. Byddwn yn rhoi gwybod i'r Bwrdd Iechyd am achosion dylid eu hystyried ar gyfer cynllun gwneud iawn.

A yw dull y Panel o ymdrin ag adolygiadau clinigol yn anghymesur?

Nac ydyw. Mae'r meini prawf yn debyg i feini prawf adolygiadau eraill sydd wedi eu cynnal yn y DU. Ym marn clinigwyr y Panel, dyma'r meini prawf fydd yn arwain at ddysgu gwersi a gwella gwasanaethau i fenywod a theuluoedd.

Beth pe bai'r adolygiadau clinigol yn darganfod bod angen cyfeirio materion at gyrff allanol?

Rydym yn gwybod y gall yr adolygwyr clinigol ddod o hyd i rai achosion y dylid eu hanfon ymlaen at gyrff proffesiynol neu gyrff rheoleiddio eraill er mwyn cynnal ymchwiliad pellach, a rhaid i ni baratoi ar gyfer yr amgylchiadau hynny. Mae clinigwyr y Panel wedi cyfarfod â'r gyrff rheoleiddio ac wedi cytuno ar ffyrdd o gydweithio. Nodir hyn yn Strategaeth yr Adolygiadau Clinigol.

YMGYSYLLTU Â'R PANEL A'R BWRDD IECHYD

Sut mae cysylltu â'r Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth?

Os ydych chi eisiau cysylltu â'r Panel, anfonwch e-bost atom
paneltrosolwg.mamolaeth@llyw.cymru

Pryd cawn ni ddiweddariad gan y Panel?

Yn ychwanegol at y trefniadau adrodd ffurfiol, bydd y Panel yn cyhoeddi cylchlythyrau a diweddariadau rheolaidd.

Yn achos y rhai sydd eisoes wedi gofyn am gael cymryd rhan yn ein gwaith wrth symud ymlaen, dylech gael y cylchlythyr a'r diweddariadau'n awtomatig. Os ydych chi eisiau cael gohebiaeth yn rheolaidd, rhowch wybod i ni trwy e-bostio ein mewnlwch.

Beth yw'r ffordd orau o gysylltu â'r Bwrdd Iechyd?

Ar ôl cyhoeddi'r Adroddiad Chwarterol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi agor llinell gymorth i sicrhau bydd modd delio ag ymholiadau'n agored ac yn effeithlon.



Ffoniwch y llinell gymorth ar **08000 328999**. Ar y cychwyn, bydd ar gael am 4 diwrnod, rhwng dydd Mawrth 8 Hydref a dydd Gwener 11 Hydref yn ystod oriau swyddfa arferol, sef **0900 tan 1700**.

Fel arall, gallwch e-bostio unrhyw ymholiadau at CTM_MaternityImprovementProgramme@nhs.wales.uk. Bydd y cyfeiriad e-bost yn weithredol hyd y gellir rhagweld.

Sut galla i gymryd rhan yn nigwyddiadau cymunedol y Bwrdd Iechyd?

Os ydych chi eisiau cymryd rhan mewn digwyddiadau cyd-gynhyrchu gwasanaethau mamolaeth gaiff eu cynnal yn y dyfodol, cysylltwch â'r Bwrdd Iechyd yn uniongyrchol trwy e-bostio CTM_Maternityevents@wales.nhs.uk

Dyma ddyddiadau'r digwyddiadau hyn:

- Merthyr – Dydd Gwener 8 Tachwedd 2019;
- Llantrisant – Dydd Iau 28 Tachwedd 2019;
- Pen-y-bont ar Ogwr – Dydd Mawrth 25 Chwefror 2020.

Caiff y digwyddiadau hyn eu cefnogi gan Cath Broderick, Aelod Lleyg y Panel. Eu bwriad yw dangos bod y Bwrdd Iechyd yn sefydliad agored a thryloyw, sy'n wirioneddol awyddus i gynnwys menywod a theuluoedd yn y dasg o gynllunio a chyflawni ei wasanaethau.

A oes ffyrdd eraill o gymryd rhan?

Rydym eisiau sicrhau y gallwch barhau i leisio eich barn mewn ffyrdd gwahanol. Bydd y digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned yn cynnwys nifer o ddulliau lle gallwch rannu eich profiadau mewn lleoliad anffurfiol.

Hefyd, mae fforwm Fy Mamolaeth, Fy Ffordd (y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth gynt) yn grŵp o rieni sy'n gweithio mewn partneriaeth â bydragedd, meddygon a phobl eraill â budd mewn gwasanaethau mamolaeth yng Nghwm Taf Morgannwg. Eu nod yw helpu i wella a siapio gofal mamolaeth yn y dyfodol ar gyfer menywod, partneriaid a babanod. Os ydych chi eisiau rhannu eich profiad a bod yn rhan o'r grŵp, e-bostiwch CTM_MaternityImprovementProgramme@nhs.wales.uk.

Pa wasanaethau cymorth ychwanegol sydd ar gael?

- Mae llinell gymorth Sands yn rhad ac am ddim i'w ffonio o linellau tir a ffonau symudol. Y rhif yw **0808 164 3332**. Mae'r tîm ar gael i siarad gyda chi rhwng 9.30am a 5.30pm dydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 6pm a 10pm ar nos Fawrth a nos Iau. Hefyd, mae ganddyn nhw fewnflwch (helpline@sands.org.uk) ac ap Cymorth Profedigaeth mae modd ei lawrlwytho oddi ar eu gwefan.
- Gall y Cyngor Iechyd Cymuned roi cyngor annibynnol. Gallwch gysylltu â swyddfa leol y Cyngor Iechyd Cymuned yng Nghwm Taf Morgannwg trwy e-bostio



enquiries.cwm Tafchc@waleschc.org.uk neu ffonio **01443 405 830** yn ystod oriau swyddfa.

- Grŵp o rieni a theuluoedd sydd wedi colli babi yw Grŵp Cymorth Snowdrop. Gyda chymorth Bydwraig Profedigaeth y Bwrdd Iechyd, maen nhw'n dod at ei gilydd i rannu profiadau. Gallwch gymryd rhan yn y grŵp trwy e-bostio CTM_MaternityImprovementProgramme@nhs.wales.uk neu gallwch ymuno â thudalen Facebook Grŵp Cymorth Snowdrop Cwm Taf Morgannwg (*Cwm Taf Morgannwg Snowdrop Support Group*).

Rwy'n feichiog ar hyn o bryd. Â phwy alla i drafod fy mhryderon?

Byddem yn awgrymu eich bod yn siarad yn y lle cyntaf gyda'ch bydwraig gymunedol, er mwyn rhannu eich pryderon ac ystyried dewisiadau o ran gofal beichiogrwydd.

Gobeithio bydd modd i'r Bwrdd Iechyd roi'r cymorth priodol i chi. Fodd bynnag, os ydych chi'n dal i fod yn bryderus, mae'r Gweinidog wedi sicrhau y gellir gwneud trefniadau eraill os teimlwch nad ydych chi'n dymuno defnyddio gwasanaethau Cwm Taf Morgannwg.

Mae gan fenyw hawl i ddewis ble i roi genedigaeth. Os penderfynwch eich bod eisiau newid ble byddwch yn rhoi genedigaeth, bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda chi i sicrhau y gallwch gael eich babi ble bynnag y dymunwch.

Mae gan bawb yng Nghymru hawl cyfartal i gael gofal mamolaeth o'r radd flaenaf.

Rwy'n feichiog ac i fod i roi genedigaeth yng Nghwm Taf Morgannwg. Ydy hyn yn ddiogel?

Diogelwch cleifion yw'r brif flaenoriaeth ac mae gan y Bwrdd Iechyd staff ymroddedig ac ymrwymedig sy'n cymryd o ddifrif eu cyfrifoldebau i ddarparu gofal o'r radd flaenaf. Maen nhw wedi bod yn gweithredu ar bob lefel yn ystod y misoedd diwethaf i wneud yn siŵr fod gwasanaethau'n ddiogel ac o safon uchel.

Deallwn bydd casgliadau'r adroddiad yn achosi pryder i nifer o deuluoedd. Gallwch gysylltu â'ch bydwraig gymunedol (os nad ydych chi eisoes wedi gwneud hynny), ond os hoffech drafod unrhyw bryderon a chwestiynau'n fwy manwl gallwch gysylltu â'r llinell gymorth ar **08000 328999** rhwng 0900-1700, o ddydd Mawrth 8 Hydref i ddydd Gwener 11 Hydref. Os bydd yn briodol ac yn bosibl, gallan nhw hwyluso cyfarfod gydag uwch aelod o'r tîm mamolaeth.

Gallwch hefyd e-bostio'r cyfeiriad e-bost penodol, sef CTM_MaternityImprovementProgramme@wales.nhs.uk, unrhyw adeg a byddan nhw'n trefnu i rywun gysylltu â chi'n uniongyrchol.

Cefais ofal yng Nghwm Taf a doeddwn i ddim yn hapus. Beth allaf ei wneud?



Os oes gan unrhyw un bryderon ynglŷn â'r gofal gawson nhw, gallan nhw gysylltu â'r llinell gymorth neu'r mewnlwch Gwella Mamolaeth, fel y nodir uchod. Byddan nhw'n gwneud yn siŵr fod yr holl bryderon yn cael eu hymchwilio'n briodol. Hefyd, gallwch gysylltu â Chyngor Iechyd Cymuned Cwm Taf Morgannwg, y corff gwarchod cleifion annibynnol, i gael cymorth a chyngor.

Rwyf wedi gwneud cwyn o'r blaen, ond dydw i ddim wedi cael ymateb. Pryd gallaf ddisgwyl clywed unrhyw beth gan y Bwrdd Iechyd?

Deallwn fod yna beth oedi yn y Bwrdd Iechyd wrth ymateb i gynnydd presennol yn nifer y cwynion. Rydym ar ddeall y dylech chi fod wedi cael llythyr yn rhoi gwybod i chi am yr oedi, ynghyd â manylion yr amserlen ddisgwyliedig.

Os nad ydych chi wedi cael unrhyw wybodaeth gan y Bwrdd Iechyd, rhowch wybod i'r tîm am eich pryderon trwy e-bostio CTHB_Concerns@wales.nhs.uk er mwyn iddyn nhw allu rhoi'r diweddaraf i chi am y cynnydd.

Pa adolygiadau eraill sy'n cael eu cynnal?

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi rhoi Adolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Mamolaeth ar waith. Fel rhan o'r adolygiad, byddan nhw'n archwilio gwasanaethau mamolaeth, yn cynnwys wardiau esgor, ym mhob un o fyrdau iechyd Cymru. Bydd y rhain yn cael eu cynnal rhwng haf 2019 a dechrau 2020. Bydd yr archwiliadau'n gwirio bod menywod a'u teuluoedd yn cael gofal iechyd diogel ac effeithiol. Ar ôl pob archwiliad, byddan nhw'n ysgrifennu adroddiad gaiff ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o fewn tri mis. Byddan nhw'n codi unrhyw bryderon brys yn syth gyda'r byrdau iechyd a Llywodraeth Cymru. Ar ddiwedd yr adolygiad, byddan nhw'n cyhoeddi adroddiad Cymru gyfan. Bydd hwn yn nodi pa wasanaethau sy'n gwneud yn dda a beth mae angen iddyn nhw ei wella ar draws Cymru.

Ar hyn o bryd maen nhw wrthi'n creu tudalen ar eu gwefan. Bydd hon yn cael ei neilltuo ar gyfer yr adolygiad mamolaeth, a bydd yn cynnwys diweddariadau'n ymwneud â'u gwaith a'u harchwiliadau.

Ble alla i gael gfael ar arolwg cenedlaethol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o wasanaethau mamolaeth?

Gallwch gael gfael ar arolwg cenedlaethol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o wasanaethau mamolaeth [yma](#). Rydym yn eich annog i gymryd rhan a sicrhau bod lleisiau menywod a'u teuluoedd yn siapio'r ddarpariaeth gofal mamolaeth yng Nghymru.

Os oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer cwestiynau ychwanegol, rhowch wybod i ni trwy gysylltu â'n mewnlwch.